

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.6 Creu Deddfwriaeth



Trosiwig

Bydd y daflen wybodaeth hon yn esbonio sut y llunnir deddfau yng Nghymru a sut y gall y sector ddylanwadu ar hyn.

Arweiniad

Ym mis Mai 2011 pleidleisiodd trigolion Cymru mewn refferendwm i newid y ffordd y caiff deddfwriaethau eu creu yng Nghymru.

Roedd arfer bod gennym system gymhleth iawn a oedd yn golygu fod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyntaf gael caniatâd gan Senedd y DU ar ffurf Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) yn gyntaf, er mwyn creu deddfau yng Nghymru. Unwaith i'r Cynulliad sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol, gallai wedyn fynd ymlaen i greu deddfau Cymreig a elwir yn Fesurau.

Bellach, mae'r system hon wedi newid. Nid oes yn rhaid i'r Cynulliad fynd drwy'r Broses LCO mwyach gan fod pob caniatâd angenrheidiol bellach ar waith. Ond cofiwch, dim ond yn yr 20 maes datganoledig y mae gan y Cynulliad awdurdod drostynt y gellir creu deddfau. Ni all y Cynulliad greu deddfau ar bethau fel amddiffyn, mewnfudo a threthiant y mae gan Senedd y DU awdurdod drostynt.

Ceir union fanylion y meysydd y gall y Cynulliad bellach greu deddfau arnynt yn Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hwn yn egluro beth a gaiff ei gynnwys yn yr 20 maes polisi datganoledig ac yn nodi p'un a oes unrhyw eithriadau i bob maes. Atodlen 7 yw'r lle i ddechrau edrych os ydych yn ystyried datblygu cynigion deddfwriaethol i'w awgrymu i'r Cynulliad.

Ni chaiff deddfau Cymru eu galw'n Fesurau chwaith. O hyn ymlaen caiff deddfau arfaethedig eu galw'n Biliau a chaiff cyfreithiau sydd wedi'u pasio eu galw'n Ddeddfau. Ond bydd unrhyw Fesurau a wnaed ers 2007 yn parhau i gael eu galw'n Fesurau'r Cynulliad a bydd eu heffaith gyfreithiol yn parhau.

Pwy sy'n gallu cyflwyno deddfwriaeth?

Mae'r broses ar gyfer creu deddfwriaeth bellach yn golygu bod yn rhaid i Fil gael ei gyflwyno i'r Cynulliad i ddechrau. Cyfraith ddrafft yw Bil ac unwaith iddo gael ei ystyried a'i basio gan y Cynulliad a chael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, daw yn Ddeddf Cynulliad

Gall Bil gael ei gyflwyno drwy:

- **Llywodraeth Cymru** (caiff y rhan fwyaf o Filiau eu cyflwyno gan Weinidogion y Llywodraeth)
- **Pwyllgorau'r Cynulliad**
- Aelod Cynulliad a fydd yn ennill **balot aelodau preifat**. Gall ACau roi'u henwau gerbron ar gyfer y balot ynghyd â chynnig bras o'r hyn yr hoffent ei gyflwyno.
- **Comisiwn y Cynulliad** – ond dim ond yng nghyswllt ei swyddogaethau ei hun. Ceir taflen wybodaeth ar wahân ar Gomisiwn y Cynulliad.

Beth yw'r broses gymeradwyo ddeddfwriaethol?

Mae'r broses ganlynol yn dangos sut yr ystyrir Bil y Llywodraeth yn y Cynulliad:

Cam 1

Mae hwn yn golygu y caiff egwyddorion cyffredinol Bil eu hystyried gan Bwyllgor, yna bydd y Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar brif ddiben y Bil, yn hytrach nag edrych ar y mân fanylion gan y bydd hyn yn digwydd yn nes ymlaen yn y broses. Gall y Pwyllgor wahodd cynrychiolwyr o bleidiau sydd â diddordeb a gall agor cyfnod o ymgynghori i wahodd tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i oleuo'i waith.

Unwaith i'r Pwyllgor adrodd, gofynnir i'r Cynulliad drafod a chytuno ar egwyddorion cyffredinol, drwy bleidleisio mewn Cyfarfod Llawn. Os na fydd y Cynulliad yn gallu cytuno ar egwyddorion cyffredinol yng Ngham 1 a chaiff y bleidlais ei cholli, yna ni fydd y Bil yn mynd rhagddo ymhellach.

Cam 2

Ar ôl i'r Cynulliad gytuno i'r egwyddorion cyffredinol, bydd y Pwyllgor wedyn yn ystyried y Bil yn fanwl yn cynnwys pleidleisio i dderbyn neu wrthod diwygiadau unigol a gynigwyd gan Aelodau Cynulliad. Gall unrhyw Aelod Cynulliad gyflwyno diwygiadau i'r Bil, ac nid oes terfyn ar y nifer o ddiwygiadau y gellir eu cyflwyno. Fodd bynnag, dim ond Aelodau'r Pwyllgor all bleidleisio ar y diwygiadau. Dim ond pan fydd yr holl ddiwygiadau wedi cael eu hystyried ac ar ôl gael pleidlais arnynt y gellir terfynu'r cam hwn.

Cam 3

Mae hwn yn dilyn cwblhau Cam 2 ac yn golygu bod y Cynulliad yn ystyried y Bil yn fanwl mewn Cyfarfod Llawn a bod yr Aelodau Cynulliad yn gwneud diwygiadau. Gall unrhyw Aelod gyflwyno diwygiadau ar gyfer y Bil, ond y tro hwn nid oes yn rhaid i bob diwygiad gael ei ystyried. Mae'r Llywydd yn penderfynu pa ddiwygiadau gaiff eu hystyried yng Ngham 3 a phleidleisir ar bob un ohonynt.

Cam 3a

Mae cyfnod diwygio ychwanegol dewisol, a elwir yn gyfnod adrodd, y gellir ei gynnwys rhwng cyfnodau 3 a 4, os bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cynnig hynny a bod y Cynulliad yn ei gymeradwyo.

Cam 4

Dyma gam olaf y Cynulliad ac mae'n golygu pleidlais derfynol mewn Cyfarfod Llawn i basio testun terfynol y Bil. Ni chaniateir dim gwelliannau ar y cam hwn, ac os na fydd y Cynulliad yn pleidleisio o'i blaid yn y cam hwn, bydd y Bil yn methu

Cam 5

Os caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad yng Ngham 4, rhaid iddo gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines cyn dod yn ddarn o gyfraith yn ffurfiol - Deddf y Cynulliad.

Biliau eraill

Gall biliau hefyd gael eu cyflwyno gan Bwyllgorau'r Cynulliad, Aelodau Cynulliad unigol o Bwyllgor y Cynulliad ac yn gyffredinol bydd yn dilyn gweithdrefn debyg i'r hyn a nodir uchod.

Cyfleoedd I ddylanwadu ar ddeddfwriaeth

Mae yna gyfleoedd i'r sector ddylanwadu Filiau'r Cynulliad yn rhagweithiol ac yn adweithiol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r AC angen clywed oddi wrth y sector, gyda'i gyfoeth o brofiad ac arbenigedd, ar ba ddeddfwriaeth sydd ei angen. Mae'r sail tystiolaeth sydd gan y sector yn hynod bwerus wrth lobïo am newid.

Gall lobïo Llywodraeth Cymru ac AC ddylanwadu ar y rhaglen ddeddfwriaethol y mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i bob blwyddyn, neu ddylanwadu ar y Biliau a ellir eu nodi gan Bwyllgorau'r Cynulliad neu AC sy'n ennill y bleidlais.

Yn yr un modd, gall dilyn llwybr y Deisebau Cyhoeddus fod yn ffordd arall o greu diddordeb mewn deddfwriaeth am fater penodol a allai wedyn gael ei datblygu gan Bwyllgor neu Aelod Cynulliad.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn wasanaeth sydd ar gael i bob AC, ac mae hwn hefyd yn gorff defnyddiol i gysylltu. Mae'n darparu adroddiadau cefndir ac ymchwil a geisir gan yr AC a Phwyllgorau, ac wrth ddarparu adroddiadau a gwybodaeth i'r GYA, gall y sector amlygu ei neges.

Yn nhermau dylanwadu ar y Biliau, mae yna gyfleoedd i gyfrannu at ymgynghoriad cyn-deddfu a pharhau i lobio gwelliannau yng nghanau 2 a 3 y broses, er bod cam 3 yn fwy cyfyngedig am nad yw pob gwelliant yn cael ei ystyried. Mae yna weithiau gam ymgynghori hyd yn oed cyn i'r Biliau gael ei roi o flaen y Cynulliad ar gyfer ei ystyriaeth gyffredinol. Gall Llywodraeth y Cynulliad neu Aelod y Cynulliad ofyn am ymgynghoriad cyn dechrau'r broses swyddogol er mwyn sicrhau fod pob Biliau wedi'i archwilio a'i newid gan fudd-ddeiliaid allweddol, ac felly'n cynyddu'r cyfle ar gyfer llwyddiant yn y broses swyddogol.

Is-ddeddfwriaeth

Gelwir Deddfau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y DU yn ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae is-ddeddfwriaeth yn derm cyffredinol ar gyfer cyfreithiau a wneir o dan ddarpariaethau Deddf. Gelwir is-ddeddfwriaeth hefyd yn ddeddfwriaeth eilaidd neu ddirprwyedig neu'n offerynnau statudol.

Wrth basio Deddf, mae'r Cynulliad yn cymeradwyo ei hegwyddorion, ei hamcanion cyffredinol a manylion pwysig yn ei chylch. Fodd bynnag, bydd y Ddeddf fel arfer yn rhoi pwerau is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru neu gorff arall i wneud rheoliadau manwl neu gymell camau gweithredu penodol mewn perthynas â'r ffordd y caiff y brif gyfraith ei rhoi ar waith.

Sut y caiff is-ddeddfwriaeth ei gwneud?

Er y gall amryw o gyrff, yn cynnwys awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill wneud is-ddeddfwriaeth, mae'r rhan fwyaf o'r is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Cynulliad yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

Mae tri phrif gategori o is-ddeddfwriaeth, yn dibynnu ar y weithdrefn a ddefnyddir i graffu ar yr is-ddeddfwriaeth a'i chymeradwyo. Dyma'r categorïau:

- Dim gweithdrefn – fe'i cyhoeddir fel arfer, a gofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion (neu eu swyddogion) yn unig a wna.
- Y weithdrefn penderfyniad negyddol – caiff ei chyhoeddi, ond, o fewn 40 diwrnod, gall y Cynulliad gytuno i ddirymu (canslo) y ddeddfwriaeth os yw Aelod yn cyflwyno cynnig i'r perwyl hwnnw.

- Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol – cyhoeddir drafft ohoni ac mae'n ofynnol i'r holl Gynulliad ei chymeradwyo cyn y gall ddod i rym.

O bryd i'w gilydd, ar gyfer deddfwriaeth neilltuol o bwysig neu gynhennus, defnyddir yr hyn a elwir yn weithdrefn **uwch-gadarnhaol**. Mae hon yn debyg i'r weithdrefn gadarnhaol ond bod iddi ofynion ychwanegol o ran cyfnod ymgynghori cyn y gellir cyflwyno deddfwriaeth gerbron y Cynulliad.

Sut mae gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth yn digwydd?

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn rhoi hawl i bwyllgor yn y Cynulliad gael hyd at 20 diwrnod i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n deillio o is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Cynulliad cyfan bob amser yn cynnal dadl ar is-ddeddfwriaeth sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol, ac mae'r Cynulliad cyfan hefyd yn gofod ei chymeradwyo cyn y gall ddod i rym. Daw is-ddeddfwriaeth sy'n destun y weithdrefn negyddol i rym yn awtomatig oni bai bod Aelod Cynulliad yn gwneud cais bod y Cynulliad yn ei thrafod (drwy gyflwyno cynnig yn gofyn i'r ddeddfwriaeth gael ei dirymu).

Gwybodaeth bellach

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

www.cynulliadcymru.org

Am wybodaeth bellach ar y Mesurau cyfredol a ystyrir gan y Cynulliad, gweler:

www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures.htm

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 19/10/2012



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk